

Rhif: WG47099



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Ariannu ymchwil Sêr Cymru - ymgyngoriad ar y cam nesaf

Ionawr 2023

## Cynnwys

1. Crynodeb o'r prif bwyntiau
2. Cefndir
3. Nodau ac amcanion
4. Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad
5. Dadansoddiad o'r ymatebion
6. Cryfderau a chyfyngiadau
7. Safbwyntiau ar adrannau arfaethedig
8. Safbwyntiau ar themâu eang a thrawsbynciol posibl
9. Enwi rhaglen nesaf Sêr Cymru
10. Cydweithio gwell fel canlyniad arfaethedig
11. Gwella cydraddoldeb ac amrywiaeth
12. Y Gymraeg
13. Sylwadau ychwanegol
14. Casgliad a chymau nesaf

## Crynodeb o'r prif bwyntiau

Cafwyd cyfanswm o 78 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gyda'r rhan fwyaf ohonynt gan gyrrff ymchwil neu sefydliadau academaidd ledled Cymru. Gofynnwyd i ymatebwyr am eu barn ynghylch adrannau posibl, themâu, enwi'r rhaglen, canlyniadau, cydraddoldeb, amrywiaeth a'r Gymraeg. Er nad oes modd osgoi cyfyngiadau, a chânt eu cydnabod, rhoddodd y lefelau o gytundeb gan ymatebwyr, y radd a roddodd ymatebwyr i nodi blaenoriaeth a sylwadau ysgrifenedig cysylltiedig ddealltwriaeth werthfawr ynghylch y prif feysydd hyn.

Ystyriodd yr ymatebwyr yn ffafriol tuag at gynnwys pob un o'r wyth adran. Fodd bynnag, yng nghyd-destun cyllidebau cyfyngedig, yr adrannau oedd ar frig y rhestr oedd:

- Ysgoloriaethau Doethuriaeth
- Gwobrau Adeiladu Capasiti
- Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol

Ystyriwyd y rhain yn fodd o gynnig cyfle gwerthfawr o ran cynnal a datblygu rhagoriaeth mewn ymchwil yng Nghymru, gyda'r rhwydweithiau yn benodol yn cynnig cyfleoedd ar gyfer ymchwil gydwethredol a mwy o gyllid wedi'i ysgogi mewn meysydd sydd o flaenoriaeth allweddol. Er gwaethaf cryn gefnogaeth mewn egwyddor i ysgoloriaethau doethuriaeth Sêr Cymru, amlygwyd pryderon sylweddol ynglŷn ag ymarferoldeb, gan gynnwys anghysondeb yn yr amserlenni o ran pa gyllid fyddai ei angen a pha gyllid fyddai ar gael drwy'r rhaglen. Amlygwyd hefyd y gallai fod mwy o fantais ac angen am gyfleoedd ôl-ddoethurol er mwyn cadw doniau a meithrin capasiti. Awgrymwyd y dylid ystyried adrannau ychwanegol (ee cyllid i gefnogi lleoliadau academaidd clinigol neu ar gyfer meithrin cysylltiadau â'r cyhoedd). Fodd bynnag, pwysleisiwyd y peryglon o estyn adnoddau Sêr Cymru yn ormodol ar draws gormod o adrannau.

Yr adran a sgoriwyd isaf ar y rhestr oedd 'Cyllid ar gyfer gweithdai a digwyddiadau'. Er y cafwyd nifer o sylwadau cadarnhaol ynghylch yr adrannau a gafodd y sgôr isaf, roedd y prif resymau dros hynny yn cynnwys y ffaith y byddai dyblygu cyfleoedd sy'n bodoli eisoes gyda'r awgrym y byddai cydweithredu â'r rhain yn well yn ogystal â'r posibilrwydd o'u hymgorffori yn rhan o adrannau arfaethedig eraill heb yr angen i wahanu.

Cynigiodd y rhan fwyaf o ymatebwyr safbwyntiau cadarnhaol ynghylch y cyfle i gyflwyno ceisiadau graddol sy'n cynnwys sawl adran a hynny yn sgil y posibilrwydd ar gyfer rhagor o hyblygrwydd a gweithio strategol. Fodd bynnag, nodwyd hefyd y gallai hyn gynyddu cymhlethdodau ac ansicrwydd o ran parhad prosiectau.

Y themâu a ddaeth i'r brig oedd:

- Gwyddorau Bywyd
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Peirianeg, a ddilynwyd yn agos gan
- Garbon Isel a Sero Net

Mae'r rhain yn cyd-fynd yn eang â blaenoriaethau presennol y llywodraeth a Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol Sêr Cymru. Amlygwyd meysydd thematig ychwanegol i'w hystyried megis technoleg (sawl math) a mathemateg. Y thema eang a ddaeth isaf oedd 'Twristiaeth, Chwaraeon, Celfyddydau'.

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn gytûn o ran y themâu trawsbynciol sef 'Gwyddorau Cymdeithasol', 'Digidol'. 'y Gymraeg' a 'Llesiant'. Rhannodd rhai ymatebwyr bryder

ynghylch y gorgyffwrdd rhwng y themâu trawsbynciol a themâu eraill a phe byddai eu cysoni yn cael ei wneud yn orfodol, gallant fod yn gyfyng ac felly'n ddi-fudd.

Roedd ffafriaeth amlwg ynghylch yr enw 'Sêr Cymru IV' o'i gymharu â 'Sefydliad Cenedlaethol Astudiaethau Uwch Sêr Cymru (SCNIAS)' a hynny er mwyn sicrhau cysondeb â chyfnodau blaenorol ac i leihau'r tebygolrwydd o gamddehongli.

Cytunodd nifer o ymatebwyr ynglŷn â chanolbwyntio ar gydweithio yn ganlyniad, fodd bynnag, amlygwyd yr angen i gydweithrediadau fod yn gredadwy ac yn gynaliadwy. Nododd ymatebwyr y dylid ystyried canlyniadau eraill yn ogystal megis gweithgareddau cyfathrebu a lledaenu gwybodaeth ym maes gwyddoniaeth, ymgysylltu ym maes masnach ac ysgogi cyllid.

Ystyriwyd bod ystyriaethau o ran materion cydraddoldeb, amrywiaeth a'r Gymraeg yn hollbwysig ar gyfer cam nesaf Sêr Cymru a nodwyd sawl dull posibl ar gyfer gwella.

Yn olaf, er bod ymatebwyr yn croesawu a chefnogi cynigion ar gyfer cyfnod arall i raglen Sêr Cymru yn y dyfodol, rhannwyd pryderon y byddai'r cyllid cyfyngedig yn annigonol i ddiwallu heriau presennol Cymru a'r heriau a ddisgwylir iddi, gan gynnwys y posibilrwydd o golledion mewn capasiti ymchwil, arbenigedd a'r posibilrwydd i sicrhau cyllid ychwanegol.

Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn yn cael eu defnyddio i lywio argymhellion ar fframwaith arfaethedig ar gyfer cam nesaf rhaglen ariannu ymchwil Sêr Cymru. Bydd y fframwaith hwn yn aros yn hyblyg er mwyn adolygu blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg ac ymateb iddynt, galluogi gwaith o gysoni gyda gweithgareddau presennol yn fewnol ac yn allanol, yn ogystal â sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd rhagori ym maes a chyfleoedd cydweithio yng Nghymru. Bydd y fframwaith a chyfleoedd ariannu dilynol yn cael eu rhannu cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol drwy wefannau a sianeli cyfathrebu Sêr Cymru.

## Cefndir

Mae rhaglen ariannu ymchwil Sêr Cymru wedi bodoli ers ychydig o dan ddegawd ac mae wedi hwyluso ymchwil rhyngddisgyblaethol sy'n cael effaith mewn meysydd megis gwyddorau bywyd, yr amgylchedd, peirianeg a'r Coronafeirws (COVID-19). Mae'r rhaglen wedi llwyddo i adeiladu capasiti ymchwil a gallu yng Nghymru, gan gynhyrchu dros £191 miliwn o incwm ymchwil. Mae Sêr Cymru II yn parhau i fod yn weithredol tan ddiwedd mis Mehefin 2023, pan ddaw'r cyllid Ewropeaidd ar gyfer y rhaglen i ben. Ar hyn o bryd, mae'r cyllid ar gyfer 2022-23 wedi'i ymrwymo'n llawn i gefnogi Sêr Cymru II.

Yn dilyn cais llwyddiannus am offer 'gwella cystadleurwydd' gan Sêr Cymru sydd wedi dyrannu oddeutu £2.3 miliwn, mae'r cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cam nesaf oddeutu £10 miliwn dros ddwy flynedd ariannol (2023 i 2024 a 2024 i 2025). Os daw cyllideb neu incwm ychwanegol ar gael yn y flwyddyn ariannol bresennol, byddwn yn edrych ar geisio cyfrannu hynny at y rhaglen lle bo'n bosibl.

Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, nod Sêr Cymru yw parhau i hwyluso capasiti a'i ddatblygu ar gyfer cyflawni ymchwil gwyddonol rhagorol sy'n cael effaith sylweddol ledled Cymru.

Ym mis Awst 2022, gofynnwyd am [safbwyntiau ar gynigion ar gyfer cam nesaf rhaglen ariannu ymchwil Sêr Cymru](#).

## Nodau ac amcanion

Nod y ddogfen hon yw crynhoi tystiolaeth o'r ymgynghoriad a helpu i flaenoriaethu a mireinio dulliau cyflenwi i sicrhau llwyddiant parhaus Sêr Cymru.

Er bod y ddogfen hon yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau'r ymgynghoriad a chaiff ei defnyddio i lywio penderfyniadau, nid yw'n nodi casgliad pendant ynglŷn â'r fframwaith ar gyfer cam nesaf cyllid Sêr Cymru. Bydd manylion am gyfleodd ariannu yn y dyfodol ar gael ar dudalennau gwe Sêr Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

## Trosolwg o ymatebion i'r ymgynghoriad

Daeth gyfanswm o 78 o ymatebion i law, gan gynnwys 61 drwy ffurflen ymgynghori ar-lein, 15 drwy ffurflen ymgynghori dros e-bost a dau drwy lythyr e-bost yn nodi safbwyntiau ar ffurf naratif, heb ddefnyddio'r ffurflen ymgynghori. Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion drwy'r post.

Cafwyd y mwyafrif o ymatebion drwy'r ffurflen ymgynghori gan bobl oedd yn ystyried eu hunain yn dod o sefydliadau ymchwil/academaidd (n = 66), ein cynulleidfa darged. Cafwyd dau ymateb gan bobl oedd yn ystyried eu hunain yn dod o'r sector preifat a chafwyd dau ymateb gan bobl oedd yn ystyried eu hunain o'r sector cyhoeddus. Nododd chwe ymatebwr eu bod yn perthyn i grwpiau 'Arall' gan gynnwys cyn-aelodau o banel arbenigol annibynnol Sêr Cymru (n = 3), cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, academydd wedi ymddeol ac ymatebydd â gyrfa mewn diwydiant a'r byd academaidd. Roedd y rhai a gyflwynodd lythyrau yn dod o sefydliadau gyda mewnwleidiad a phrofiad perthnasol o'r materion sy'n ymwneud ag ymchwil academaidd a chyllid.

O'r bobl a ddarparodd eu cyfeiriad e-bost, roedd modd penderfynu bod o leiaf un ymateb wedi dod i law o bob un o'r prifysgolion ledled Cymru, gan gynnwys Prifysgol Aberystwyth,

Prifysgol Bangor, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe, Prifysgol De Cymru, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam. Derbyniwyd ymatebion hefyd gan bobl sydd wedi'u lleoli mewn prifysgolion yn Lloegr a'r Alban, gan gynnwys Prifysgol Caer, Prifysgol Lerpwl, Prifysgol Birmingham a Phrifysgol Caeredin. Roedd y gweddill gan bobl na ddatgelodd eu cyfeiriad e-bost ac felly nid yw eu hymlyniad academaidd yn hysbys.

## **Dadansoddiad o'r ymatebion**

Cyfunwyd y data o'r ymatebion ar-lein ac e-bost a dderbyniwyd drwy'r ffurflen ymgynghori i'w dadansoddi. Mae safbwyntiau o'r ddau lythyr a dderbyniwyd hefyd wedi eu hymgorffori.

Cyflwynir i ba raddau y cytunwyd a'r adrannau a'r themâu posibl, a'u sgôr o ran blaenoriaeth, o'r ymatebion ar-lein a thrwy e-bost a ddaeth i law ar ffurf siart a naratif.

Darllenwyd ac ystyriwyd ymatebion ansoddol (h.y. sylwadau testun rhydd a gynhwysir yn yr ymatebion ar-lein a thrwy e-bost neu lythyr). Ar gyfer pob cwestiwn, cafodd ymatebion eu grwpio, eu rhoi dan thema a'u disgrifio. Lle bo angen, ail-grwpiwyd ymatebion a oedd yn berthnasol i gwestiwn neu thema arall yn unol â hynny.

Ar gyfer cymrodoriaethau rhyngwladol 'i Gymru' ac 'allan o Gymru', roedd llawer o sylwadau'n berthnasol i'r ddau ac felly roedd ymatebion yn cael eu cyfuno yn y disgrifiad naratif.

Mae'r adrannau canlynol o'r adroddiad yn crynhoi'r ymatebion i bob cwestiwn ymgynghori.

## **Cryfderau a chyfyngiadau**

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ymgynghoriad byrrach, wyth wythnos yn hytrach na'r 12 wythnos sy'n cael ei argymhell fel arfer; fodd bynnag, barnwyd bod y cyfnod amser hwn yn briodol, yn amserol ac er budd y cyhoedd er mwyn symud ar yr un momentwm â'r newidiadau parhaus sy'n ymwneud â chyllid ymchwil ar lefel y DU ac oherwydd bod y rhanddeiliaid allweddol yn ffurfio grŵp cymharol arbenigol. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai hyn fod wedi cael rhywfaint o effaith negyddol ar y gyfradd ymateb.

Mae'n bwysig nodi y bydd buddiannau a disgyblaethau'r rhai a gymerodd ran ac a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn debygol o ddylanwadu ar y canfyddiadau. Oherwydd yr opsiwn i'r ymatebwyr gwblhau'r arolwg yn ddienw, nid yw'n bosibl nodi na gwneud sylw ar feysydd pwnc yr holl ymatebwyr a'u hymatebion dilynol. Felly, er bod lefelau cytundeb a sgôr adrannau a themâu yn ddefnyddiol i'w hystyried, dylid dehongli'r data yn ofalus.

## Safbwyntiau ar adrannau posibl


Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi a fyddent yn cefnogi cynnwys wyth adran bosibl yn rhaglen ariannu ymchwil nesaf Sêr Cymru, neu beidio. Disgrifiwyd yr adrannau hyn fel y dangosa Tabl 1 isod.

Adran	Disgrifiad
Gwobrau Adeiladu Capasiti	Llinyn hyblyg o gyllid i gefnogi swyddi ymchwilwyr newydd am gyfnod penodol a galluogi'r rhaglen i adeiladu ar y capasiti a'r gallu a gyflawnwyd eisoes (er enghraifft; Cymrodoriaethau, 'Doniau Newydd', Cadeiriau Ymchwil neu gynigion sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu Cystyrau Rhagoriaeth mewn meysydd blaenoriaeth strategol).
Cymrodoriaethau Rhyngwladol i Gymru	Cyllid i academyddion neu arweinwyr busnes arbennig sy'n gysylltiedig â Phrifysgolion i ymweld â Chymru am gyfnod o hyd at 2 fis i ddatblygu cydweithio a chynnig cyfleoedd i gyfoethogi bywyd ymchwil yng Nghymru.
Cymrodoriaethau Rhyngwladol Allan o Gymru	Cyllid i ymchwilwyr ym mhob cam gyrfa i ymweld â chanolfannau ac academyddion a gydnabyddir yn rhyngwladol am hyd at 2 fis i ddatblygu cydweithrediadau a phrofiad rhyngwladol.
Cymrodoriaethau rhwng y Byd Academaidd a Diwydiant	Cymorth ariannol i Gymrodoriaethau Cenedlaethol a Rhyngwladol sydd rhwng y byd academaidd a diwydiant, i sicrhau mwy o ffocws ymchwil ar anghenion busnes a chydweithio posibl.
Ysgoloriaethau Doethuriaeth	Llif ariannol penodol i helpu i ddatblygu capasiti ymchwil a thalu costau hyfforddiant doethurol mewn prifysgolion yng Nghymru.
Cymrodoriaethau yn Dychwelyd	Ffrwd ariannu hyblyg wedi'i chynllunio i annog cadw a dod o hyd i ddoniau yng Nghymru drwy gefnogi ymchwilwyr ôl-ddoethurol sy'n dychwelyd o gyfnod o absenoldeb.
Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol	Darparu cymorth er mwyn sefydlu neu gefnogi rhwydweithiau presennol rhwng academyddion a sefydliadau a diwydiannau cysylltiedig ledled Cymru mewn meysydd o arbenigedd penodol ar thema.
Arian ar gyfer gweithdai a digwyddiadau	Cyfle i gyflwyno cynigion i gynnal gweithdai pwrpasol a/neu symposia mewn maes sy'n berthnasol i ymchwilwyr yn eu sefydliad ac ar draws Cymru.

**Tabl 1:** Adrannau posibl i'w cynnwys yng nghan nesaf rhaglen ariannu ymchwil Sêr Cymru.

Roedd yr ymatebwyr yn gefnogol iawn i bob un o'r wyth adran bosibl, gyda phob un o'r wyth adran yn cael eu cefnogi gan o leiaf 65% o'r ymatebwyr.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd raddio yn ôl blaenoriaeth pob un o'r wyth adran bosibl, gyda chyfanswm o 73 o ymatebion cyflawn wedi'u derbyn. Fel y dangosir yn Siart 1 isod, yr adrannau a raddiwyd uchaf (yn seiliedig ar yr adrannau hynny â'r nifer uchaf o ymatebion 'Gradd 1') oedd 'Ysgoloriaethau doethurol', 'Gwobrau adeiladu capasiti', a 'Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol'. Yr adran isaf (yn seiliedig ar y nifer uchaf o ymatebion 'Gradd 8') oedd 'Cyllid ar gyfer gweithdai a digwyddiadau'.



**Siart 1:** Ymatebion i'r cwestiwn "Ble fydddech chi'n gosod pob un o'r elfennau?"

Nodwch rif rhwng 1 ac 8, lle mae 1 = prif flaenoriaeth ac 8 = blaenoriaeth isaf. Rhowch rif gwahanol ar gyfer pob elfen."

Gwahoddwyd yr ymatebwyr i ddarparu sylwadau ychwanegol ar bob un o'r adrannau posibl, p'un a oeddent yn teimlo bod unrhyw adrannau ar goll ac a fyddai cyfle i gynnig prosiect yn raddol sy'n ymgorffori sawl adran yn cael ei werthfawrogi. Crynhoir y sylwadau hyn isod.

Ysgoloriaethau Doethuriaeth (hyfforddiant doethurol)

Roedd 83% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r adran hon. Darparodd 61 o ymatebwyr sylwadau ychwanegol, ac mae crynodeb ohonynt isod.

Roedd cefnogaeth gyffredinol i ysgoloriaethau doethuriaeth gan eu bod yn rhoi'r cyfle i ymchwil ragorol gael ei chyflawni, syniadau i'w datblygu ymhellach ac i ymchwilwyr ôl-raddedig presennol ddatblygu gyrfa ymchwil, gan gynnwys sefydlu cysylltiadau â'r diwydiant ac arfer, a chreu effaith arnynt. Ar ben hynny, amlygodd yr ymatebwyr sut y gellid cysylltu ysgoloriaethau mewn ffordd fuddiol ag adrannau posibl eraill, megis 'Gwobrau adeiladu capasiti'.

Tynnwyd sylw at ddiffyg arian penodol i Gymru ar gyfer ysgoloriaethau doethuriaeth, yn enwedig nawr bod y rhaglen Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS) a ariennir gan Ewrop ar fin dod i ben, gyda'r potensial y gallai Sêr Cymru helpu i lenwi'r bwlch hwnnw. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bod sawl cynllun doethuriaeth eisoes ar gael drwy ffynonellau ariannu eraill yn y DU ac felly awgrymwyd rôl i Sêr Cymru wrth hwyluso mwy o bobl i fanteisio ar gynlluniau sydd eisoes mewn bodolaeth, ochr yn ochr ag ystyried cyd-ariannu â darparwyd eraill.

Er gwaethaf y manteision posibl, amlygwyd pryderon sylweddol ynghylch hyd yr amser a chyllid sydd ar gael ar gyfer cam nesaf Sêr Cymru, ac a fyddai hyn yn ddigon i gynnig cyfleoedd ysgoloriaeth doethuriaeth a ariennir yn gystadleuol a fyddai'n denu'r ymgeiswyr gorau. Roedd hyn yn bryder hyd yn oed pan ystyriwyd opsiynau i rannu cyllid rhwng Sêr Cymru a'r sefydliad academaidd, er mwyn ymdrin â'r amserlen bosibl ac, yn aml, amrywiol y sy'n gysylltiedig â chwblhau doethuriaeth. Awgrymwyd opsiynau Meistr Ymchwil fel dewis arall a allai fod yn ymarferol.



Cafodd diffyg cyfleoedd ôl-ddoethurol i annog myfyrwyr sydd wedi eu hyfforddi yng Nghymru i aros yng Nghymru a pharhau â'u gyrfa, hefyd ei amlygu fel problem â blaenoriaeth uwch i fynd i'r afael â hi, er mwyn cynnal llif ymchwilwyr ar hyd llwybr gyrfa.

### Gwobrau adeiladu capasiti

Roedd 87% o'r ymatebwyr o blaid yr adran hon. Darparodd 55 o ymatebwyr sylwadau ychwanegol ac maent wedi'u crynhoi isod.

Nododd llawer fod y cyllid 'Adeiladu Capasiti' hwn yn hanfodol i gynnal a sicrhau dilyniant rhagoriaeth ymchwil yng Nghymru. Ystyriwyd bod canolbwyntio ar adeiladu ar gryfderau presennol yng Nghymru i ddenu'r ymchwilwyr mwyaf talentog a chodi proffil ymchwil yng Nghymru y potensial i gynnig y budd mwyaf.

Nododd nifer o'r ymatebwyr y dylai cadw talent yng Nghymru fod yn flaenoriaeth allweddol yn y cam nesaf. Gan fod ymchwilwyr talentog yn aml yn cael eu colli yn nyddiau cynnar gyrfa ymchwil lle nad yw'r cyllid yn ddigonol nac yn sicr, amlygwyd y gallai cynnwys cefnogaeth bellach i academyddion sy'n dechrau neu yng nghanol eu gyrfa drwy 'Wobrau Adeiladu Capasiti' helpu i'w cadw.

Roedd rhai ymatebwyr nad oedd mor gefnogol i 'Wobrau Adeiladu Capasiti' yn y cam nesaf wedi mynegi pryderon. Yn bennaf, gyda chyllideb lai, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid blaenoriaethu adrannau eraill, a symleiddio'r rhaglen, yn enwedig oherwydd y gallai amserlen y rhaglen a'r cyllid cysylltiedig fod yn rhy gyfyngedig i gynnig cyfleoedd a fyddai'n cael yr effaith fwyaf, megis 'Cymrodoriaethau', 'Sêr sy'n Datblygu', 'Cadeiryddion Ymchwil', neu 'Clystyrau Rhagoriaeth' a gafodd eu cynnwys yn y disgrifiad.

Mae'n werth nodi y disgrifiwyd diffiniad yr adran hon yn gymharol eang yn y ddogfen ymgynghori ac felly mae'n debygol bod hynny wedi arwain at gryn dipyn o amrywiad o ran sut y dehonglwyd y term 'Gwobrau Adeiladu Capasiti' ymhlith yr ymatebwyr.

### Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol

Roedd 76% o'r ymatebwyr o blaid yr adran hon. Darparodd 55 o'r ymatebwyr sylwadau ychwanegol ac maent wedi'u crynhoi isod.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cefnogi cyllid yn gyffredinol ar gyfer 'Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol' a nodwyd manteision y tri rhwydwaith presennol ([Ynni Carbon Isel a'r Amgylchedd](#), [Peirianeg](#) a [Gwyddorau Bywyd](#)), gan gynnwys sut roeddent yn gymunedau a arweinir gan aelodau gyda'u strategaeth dan arweiniad yr academyddion ynddynt, a sut roeddent yn cynnig gwerth am arian oherwydd eu hanes o ran hwyluso datblygiad partneriaethau ar gyfer ceisiadau mwy ac o ganlyniad ysgogi cyllid.

Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn betrus gefnogol ac roedd eraill yn ansicr o'r potensial am werth ychwanegol, yn enwedig gan fod faint o gyllid sydd ar gael i gefnogi rhwydweithiau yn y dyfodol yn debygol o fod yn fwy cyfyngedig a gall costau rhedeg fod yn uchel. Yn ogystal, nododd rhai ymatebwyr fod angen cryfach i gefnogi'r unigolion hynny sy'n gynharach yn eu gyrfaedd.

Teimlwyd yn gyffredinol y byddai'r rhwydweithiau'n gofyn am ffocws sylweddol o ran pynciau a chylch gwaith er mwyn osgoi dyblygu. Fodd bynnag roedd barn hefyd y gallai'r

rhwydweithiau chwarae rôl ddefnyddiol wrth alluogi elfen o ymchwil a yrrir gan chwilfrydedd, gan gynnig dewis arall yn lle dulliau cyfredol o ariannu ymchwil.

Cytunwyd yn gyffredinol y dylai cwmpas unrhyw rwydweithiau fod yn 'rhyngwladol' ac nid yn gyfyngedig 'yn genedlaethol' i Gymru gan y byddai hyn yn gwella ymhellach y gwelededd y gall sefydlu rhwydwaith ei gyflwyno i unigolion a grwpiau.

Roedd syniadau ychwanegol ar gyfer rhwydweithiau newydd yn cynnwys y rhai ar draws gwahanol ddisgyblaethau yn ogystal â charfannau gwahanol o'r boblogaeth, megis iechyd, oedolion a phlant, cymunedau, natur wledig a modelu mathemategol.

### Cymrodoriaethau Rhyngwladol i Gymru ac Allan o Gymru

Roedd 68% o'r ymatebwyr yn cefnogi 'cymrodoriaethau i Gymru'. Roedd 70% o'r ymatebwyr yn cefnogi 'Cymrodoriaethau allan o Gymru'. Darparodd 57 a 54 o'r ymatebwyr sylwadau ychwanegol ar gyfer cymrodoriaethau rhyngwladol 'i Gymru' ac 'Allan o Gymru' yn y drefn honno.

Yn gyffredinol, cytunodd yr ymatebwyr y dylai denu ymchwilwyr tramor talentog i Gymru fod yn un o'r prif flaenoriaethau yng ngham nesaf rhaglen Sêr Cymru ac amlygwyd bod rôl ar gyfer y cymrodoriaethau hyn o ran gwella rhyngweithio estynedig â chydweithwyr Ewropeaidd. Nodwyd hefyd, gyda rheolaeth ofalus, y gellid creu cysylltiadau busnes rhyngwladol hefyd.

Fodd bynnag, nododd llawer y gallai cynnwys cymrodoriaethau rhyngwladol olygu peth gorgyffwrdd â chynlluniau eraill (e.e. Taith) ac oherwydd cyfyngiadau cyllid, byddai cydweithio â chynlluniau eraill yn fanteisiol iawn i raglen Sêr Cymru wrth symud ymlaen. Ar ben hynny, roedd rhai ymatebwyr yn credu, gyda chyllideb lai, y byddai 'buddsoddi mewn talent sy'n cael ei ddatblygu gartref' yn well ffocws ar gyfer y rhaglen.

Cododd un ymatebwr y pryder y gallai'r cynnydd mewn gweithio o bell effeithio ar ba mor angenrheidiol yr ystyrir y math hwn o adran a sut y gallai weithredu gyda'r potensial am lai o angen i deithio er mwyn cydweithio.

Ar gyfer cymrodoriaethau allan o Gymru yn arbennig, nododd yr ymatebwyr y byddai hyn yn gyfle da i'r rhai sy'n gynharach yn eu gyrfa hyfforddi gydag eraill a chael profiad. Fodd bynnag, nododd pedwar ymatebwr y byddent o blaid dim ond os byddai sicrwydd y byddai'r unigolion yn dychwelyd i Gymru wedi'r gymrodoriaeth. Dywedodd dau ymatebwr hefyd y gallai cyfleoedd rhyngwladol fod yn anodd i'r rhai sydd ag ymrwymadau yng Nghymru ac felly dylid darparu cymorth ychwanegol i wella hygyrchedd.

Nododd nifer o'r ymatebwyr agweddau ychwanegol y gellid eu hystyried hefyd fel rhan o adran 'ryngwladol'. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Rhaglen gyfnewid, yn hytrach na naill ai cymrodoriaeth ryngwladol 'allan o Gymru' neu 'i Gymru' yn unig.
- Gallai teithio rhwng gwledydd y DU hefyd gael ei ystyried yn 'rhyngwladol' gan y gallai teithio tramor a llety fod yn rhy gostus.
- Gallai'r wobwr weithredu fel secondiad.
- Mwy o amserlen e.e. cynnydd o gyfnod arfaethedig o ddau fis, i o leiaf dri mis.

### Cymrodoriaethau sy'n Dychwelyd

Roedd 71% o'r ymatebwyr o blaid yr adran hon. Darparodd 50 o'r ymatebwyr sylwadau ychwanegol ac maent wedi'u crynhoi isod.

Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod cymrodoriaethau sy'n dychwelyd yn cynnig manteision lluosog, gan gynnwys denu ymchwilwyr yn ôl i yrfa mewn gwyddoniaeth ar ôl seibiant oherwydd amgylchiadau personol, neu amser a dreuliodd mewn maes cyflogaeth arall fel diwydiant. Nodwyd manteision cydraddoldeb ac amrywiaeth sylweddol hefyd, gan gynnwys, gan fod ymchwilwyr yn aml yn gadael y byd academiaidd am resymau y tu allan i'w rheolaeth (e.e. cyfrifoldebau gofalu, salwch, diffyg swyddi addas), byddai darparu cyfle hygyrch i'r rhai sy'n dymuno ailgydio yn cael ei groesawu. Amlygwyd bod y math hwn o wobrau wedi'u cynnal yn llwyddiannus yn y gorffennol drwy swyddogaeth rhwydwaith ymchwil Ynni ac Amgylchedd Carbon Isel Sêr Cymru ac y gellid hefyd edrych ar y ffordd o gysylltu â chyfleoedd sydd ar gael drwy sefydliadau eraill (e.e. [Daphne Jackson Trust](#)).

Oherwydd adnoddau cyfyngedig fodd bynnag, nododd llawer efallai na fydd angen cael cynllun ar wahân at y diben hwn a gallai'r cyfle i ymchwilwyr sy'n dychwelyd fod yn hygyrch fel rhan o alwad gyffredinol i adeiladu capasiti sy'n agored ym mhob cam gyrfa.

Ar ben hynny, awgrymodd llawer o'r ymatebwyr y byddai angen i'r wobr fod yn ystwyth, gyda phenderfyniadau cyflym a gwarant o gyflogaeth barhaus, er mwyn bod yn ddeniadol a chynnig canlyniadau llwyddiannus yn y tymor hir.

### Cymrodoriaethau rhwng y byd academiaidd a diwydiant

Roedd 79% o'r ymatebwyr o blaid yr adran hon. Darparodd 56 o'r ymatebwyr sylwadau ychwanegol ac maent wedi'u crynhoi isod.

Nododd y rhai a oedd o blaid y gallai'r math hwn o adran fod o fudd wrth adeiladu rhwydweithiau i annog masnacheiddio a thwf economaidd i Gymru, pe bai'n cael ei rheoli'n ofalus.

Fodd bynnag, mynegodd yr ymatebwyr y gallai cymrodoriaethau rhwng y byd academiaidd a diwydiant fod yn efelychu gweithgareddau a rhaglenni sydd eisoes ar waith (e.e. y rhai sy'n cael eu rhedeg drwy'r Academi Frenhinol Peirianeg, y Gymdeithas Frenhinol a Phartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth sy'n cael eu rhedeg drwy Innovate UK) ac y dylai Sêr Cymru ystyried cydweithio â'r rhaglenni hyn yn hytrach na dyblygu proses a defnyddio adnoddau cyfyngedig.

Rhoddodd nifer o ymatebwyr awgrymiadau ychwanegol y gellid eu hystyried hefyd os yw cymrodoriaethau rhwng y byd academiaidd a diwydiant yn cael eu hymgorffori fel rhan o'r cam nesaf. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cyd-ariannu gyda phartner diwydiant
- Blaenoriaethu cyllid i'r meysydd hynny lle mae rhagoriaeth ymchwil eisoes wedi'i chyflawni
- Trosglwyddo gwybodaeth ac adnodd i ddigwydd y ddwy ffordd h.y. ymchwilydd i dreulio amser mewn diwydiant a phartner diwydiant i dreulio amser yn y byd academiaidd
- Galluogi defnyddio diffiniad eang o 'ddiwydiant'
- Arian ar gyfer partneriaethau byrrach sydd wedi'u cynllunio i hwyluso pontio tuag at gais am arian ar gyfer cynllun sy'n bodoli eisoes

## Arian ar gyfer gweithdai a digwyddiadau

Roedd 74% o'r ymatebwyr o blaid yr adran hon. Darparodd 56 o'r ymatebwyr sylwadau ychwanegol ac maent wedi'u crynhoi isod.

Roedd cefnogaeth gyffredinol ymhlith yr ymatebwyr ar gyfer yr adran hon, gyda gweithdai a digwyddiadau'n cael eu hesbonio fel rhai defnyddiol i greu cysylltiadau rhwng chwaraewyr allweddol sy'n dod i'r amlwg a rhai presennol, ac ar gyfer cynyddu cydgysylltu. Fodd bynnag, roedd barn gyffredin efallai na fydd yr elfen hon yn cael y flaenoriaeth uchaf ar gyfer cronfeydd cyfyngedig ac y gellid cynnwys cyllid ar gyfer gweithdai a digwyddiadau fel rhan o adrannau arfaethedig eraill Sêr Cymru. Nodwyd hefyd fod cronfeydd mewnol ac allanol i brifysgolion eisoes yn bodoli i gefnogi'r mathau hyn o weithgareddau a dylid cysoni unrhyw ddarpariaeth ychwanegol er mwyn ychwanegu gwerth.

Roedd awgrymiadau ychwanegol yn cynnwys cynnig cyllid i gefnogi gweithgareddau yn dilyn digwyddiadau (h.y. yn aml mae'n ofynnol i ymweliadau dilynol sefydlu dull o gydweithio, ond nid yw hynny'n digwydd oherwydd adnoddau cyfyngedig), cefnogaeth i rwydweithio rhyngwladol a chyllid ar gyfer cynnal cynadleddau. Nodwyd sut mae cyflwyno digwyddiadau penodol i Sêr Cymru yn cynnig cyfle i ddatblygu ymdeimlad o gymuned Sêr Cymru, gyda chyfleoedd ychwanegol posibl i ymgysylltu â'r cyhoedd a pholisi.

Yn olaf, awgrymwyd y dylid cyfyngu a thargeddu gweithdai a digwyddiadau, pe baent yn cael eu cynnwys, i feysydd penodol a chynnig cyfle i drafod chyfleoedd i ddatblygu sylfaen ymchwil Cymru a chefnogi'r rhaglen lywodraethu.

## Cais graddol sy'n cynnwys sawl adran

Roedd 62% o'r ymatebwyr o blaid y cydsyniad hwn. Darparodd 38 o'r ymatebwyr sylwadau ychwanegol ac maent wedi'u crynhoi isod.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cynnig safbwyntiau cadarnhaol ar y cyfle i gyflwyno cais graddol sy'n cynnwys sawl adran oherwydd y potensial am fwy o hyblygrwydd a phosibiliadau ar gyfer cynnig 'rhaglen' fwy a mwy strategol o gyllid a swyddi ymchwilwyr. Nodwyd nad yw'r math hwn o opsiwn ar gael ar hyn o bryd drwy rai cyllidwyr eraill yn y DU i ymchwilwyr sydd eisiau arwain rhaglenni ymchwil o brifysgolion yng Nghymru ac felly y byddai croeso iddyn nhw.

Fodd bynnag, nodwyd hefyd y gallai opsiynau graddol sy'n cynnwys sawl adran gynyddu cymhlethdod a allai arwain at fwy o gyllid tymor hwy yn ogystal â llawer mwy o adnodd rheoli na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd. Nodwyd sut y gallai cyfnodau archwilio helpu i sicrhau gwerth am arian cyfnodau diweddarach, fodd bynnag gofynnwyd cwestiynau hefyd o gwmpas yr ansicrwydd a allai fod yn gysylltiedig â chyflwyno'r rhaglen yn raddol (h.y. a fyddai adegau lle gellir atal yr ymchwil).

## Adrannau posibl sydd ar goll

Darparodd 42 o'r ymatebwyr sylwadau ychwanegol ac maent wedi'u crynhoi isod.


Nodwyd bod eisoes nifer uchel o adrannau posibl, a bod angen bod yn ofalus i sicrhau bod cyllid digonol yn cael ei ddarparu ar draws rhaglen newydd Sêr Cymru. Pwysleisiwyd hefyd y dylid edrych ar unrhyw orgyffwrdd â chyfleoedd sydd eisoes yn bodoli er mwyn osgoi

dyblygu ac y dylid hoelio sylw ar ymchwilwyr sy'n dechrau eu gyrfa. Fodd bynnag, nodwyd bod nifer o adrannau a allai fod ar goll a awgrymwyd i'w cynnwys:

- Cyfleoedd ariannu grant ar gyfer ymchwil/prosiectau penodol.
- Cymrodoriaethau academaidd clinigol penodol h.y. ffynhonnell ariannu benodol i wella ymgysylltiad y GIG mewn ymchwil i wella effaith.
- Swyddi staff-gwyddonydd/ymchwil cyfunol h.y. i alluogi pobl i gynnal swyddi academaidd, a manteisio ar gyfle ymchwil a ariennir gan Sêr Cymru.
- Galwad offer Sêr Cymru (Sylwer: lansiyd galwad offer Sêr Cymru ym mis Hydref 2022, gyda 16 o geisiadau cyllid yn cael eu dyfarnu ym mis Rhagfyr 2022).
- Cyfleoedd i ymchwilwyr sydd wedi colli allan ar gyllid Ymchwil ac Arloesi'r Deyrnas Unedig (UKRI), ond sydd wedi sgorio'n uchel ac felly mae ganddynt botensial uchel yn y dyfodol.
- Cyllid ar gyfer astudiaethau dichonoldeb tymor byr.
- Cyfuno grantiau ar gyfer Prif Ymchwilwyr sefydledig i gryfhau annibyniaeth.
- Cyllid i gefnogi agenda ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Cyllid i gefnogi rhyngweithio tymor byr penodol gyda chwmnïau, yn enwedig busnesau bach a chanolig (BBaCh).
- Cyllid er mwyn galluogi mynediad at gyfleusterau a'u rhannu.

### Safbwyntiau ar themâu eang a thrawsbynciol posibl

Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi gradd ar gyfer pob un o'r naw thema eang bosibl, gyda 71 o ymatebion cyflawn wedi'u derbyn i gyd. Fel y dangosir yn Siart 2 isod, y themâu eang oedd ar y brig (yn seiliedig ar y themâu hynny gyda'r nifer uchaf o ymatebion 'Gradd 1'), oedd 'Gwyddorau Bywyd', 'Iechyd a gofal cymdeithasol', 'Peirianeg', ac fe'u dilynwyd yn agos gan 'Carbon Isel a Sero Net'. Mae'r rhain yn cyd-fynd yn fras â blaenoriaethau presennol y llywodraeth a'r Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol presennol Sêr Cymru. Y thema eang a gafodd y radd isaf oedd 'Twristiaeth, Chwaraeon a'r Celfyddydau' (yn seiliedig ar y nifer uchaf o ymatebion 'Gradd 9').



**Siart 2:** Ymatebion i'r cwestiwn "Ble byddech chi'n graddio pob un o'r themâu eang? Nodwch rif rhwng 1 a 9, (1 = prif flaenoriaeth a 9 = blaenoriaeth isaf. Rhowch rif gwahanol ar gyfer pob elfen."

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd a oeddent yn cytuno â'r themâu trawsbynciol 'Gwyddorau Cymdeithasol', 'Digidol', 'yr Iaith Gymraeg' a 'Llesiant'. Nododd tua hanner (54%) yr ymatebwyr eu bod yn cytuno, gyda 53 o ymatebwyr yn darparu sylwadau ychwanegol, fel y disgrifir isod.

Er nad oes barn fwyafriol glir o blaid, mynegodd llawer o'r ymatebwyr bryder y gallai themâu trawsbynciol yn gyffredinol, oni bai eu bod yn cael eu diffinio'n briodol, fod yn ddiangen, yn gyfyng ac felly'n ddi-fudd. Er enghraifft, byddai angen ei gwneud yn glir a fyddai cyd-fynd â'r themâu trawsbynciol yn ofyniad hanfodol er mwyn i gais am gyllid gael ei ystyried, neu a fyddent yn cael eu nodi fel blaenoriaethau posibl i'w hystyried neu eu hymgorffori, dim ond pan fo hynny'n berthnasol.

### **Themâu posibl sydd ar goll**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn teimlo bod unrhyw themâu ar goll, boed hynny'n rhai eang neu'n rhai trawsbynciol. Nid oedd mwyafrif clir o ran barn ar y mater hwn, gyda 46% yn nodi eu bod yn teimlo bod themâu ar goll. Rhoddodd 44 o ymatebwyr sylwadau ychwanegol fel y disgrifir isod.

Roedd themâu eang a thrawsbynciol a nodwyd fel rhai a allai fod 'ar goll' yn cynnwys: technoleg (o sawl math), amrywiaeth ac anghydraddoldebau, deallusrwydd artifisial, cynaliadwyedd, arloesedd, addysg, llifogydd, amaethyddiaeth, meddyginiaethau/therapiwteg ar gyfer pobl ac anifeiliaid, gweithgynhyrchu, ailgylchu, y celfyddydau a'r dyniaethau, data mawr, mathemateg a modelu.

Nodwyd hefyd gan ymatebwyr y gallai'r rhaglen fod mewn perygl o ymdrin â gormod o themâu a bod gorgyffwrdd sylweddol yn debygol, gan gynnwys themâu gwyddorau cymdeithasol, llesiant ac iechyd, a gofal cymdeithasol.

Amlygodd yr ymatebwyr y dylai cam nesaf Sêr Cymru nodi a buddsoddi mewn meysydd o gryfder a gallu ymchwil presennol i ddarparu'r cam nesaf yn effeithiol. Ond awgrymodd eraill y dylai cyllid ganolbwyntio ar feysydd thematig fel 'Chwaraeon a'r Celfyddydau', sy'n cael eu tanariannu ar hyn o bryd er eu bod wedi'u nodi fel blaenoriaethau strategol i Gymru. Cwestiynwyd cynnwys 'y Gymraeg' fel thema ymchwil fel y cyfryw, fodd bynnag fe'i nodwyd fel ystyriaeth ganolog bwysig i'r holl ymchwil a wneir yng Nghymru. Gweler adrannau diweddarach am ragor o fanylion am ymatebion sy'n berthnasol i'r Gymraeg.

Yn olaf, tynnwyd sylw at y gofyniad i ystyried y themâu a'r blaenoriaethau a amlygwyd gan sefydliadau eraill ledled Cymru a'r DU.

### **Enwi rhaglen nesaf Sêr Cymru**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno â Sefydliad Cenedlaethol Astudiaethau Uwch Sêr Cymru (SCNIAS) neu 'Sêr Cymru IV' fel teitl arfaethedig ar gyfer cam nesaf y rhaglen. Roedd dewis amlwg i 'Sêr Cymru IV' gyda 71% o blaid y teitl arfaethedig hwn.

Roedd 48 o'r ymatebwyr yn rhoi sylwadau ychwanegol ar deitl newydd ar gyfer y rhaglen, a theimlwyd bod 'Sêr Cymru IV' yn well oherwydd ei fod yn gryno ac oherwydd sefydlwyd yr enw fel brand, roedd yn fwy tebygol o fod yn effeithiol.

Awgrymwyd, er y gallai cynnwys geiriad ychwanegol fod yn fwy ystyrllon i rai ac o bosib cynnig mwy o hygrdedd rhyngwladol, gallai fod yn ddryslyd hefyd. Yn benodol, gellid edrych ar y gair 'sefydliad' fel un sy'n nodi elfen o gynwysoldeb yn hytrach na bod yn agored i bawb, neu fodolaeth lleoliad ffisegol. Roedd diffyg eglurder hefyd ynghylch y geiriad 'astudiaethau uwch', a allai fod yn amwys o ran yr ystyr, gyda chysylltiad posib ag addysgu yn hytrach nag ymchwil.

## **Cydweithio gwell fel canlyniad posibl**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno â 'Cydweithio Gwell' fel canlyniad ar gyfer cam nesaf Sêr Cymru. Roedd cyfran fawr o'r ymatebwyr (84%) yn cytuno â hyn, ac roedd 49 o'r ymatebwyr wedi darparu sylwadau ychwanegol fel y disgrifir isod.

Roedd cytundeb cyffredinol bod cydweithio (gan gynnwys yn fewnol ac yn allanol i brifysgolion, rhyngddisgyblaethol a daearyddol) yn hanfodol i ragoriaeth ymchwil a datblygiadau gwybodaeth, yn enwedig rhwng y byd academiaidd a phartneriaid allanol. Nodwyd datblygiad personol, rhwydweithio ar gyfer ymchwilwyr sydd newydd ddechrau eu gyrfa, defnydd mwy effeithlon o gyfleusterau, datblygu clystyrau newydd o ragoriaeth, creu cysylltiadau â mentrau lleol a sbarduno cydweithio fel manteision ychwanegol o nodi cydweithio fel canlyniad allweddol. Awgrymwyd hefyd y gallai swyddi cydweithredol neu gyffredin rhwng sefydliadau ymddangos fel rhan o raglen nesaf Sêr Cymru, gyda chyfle i wella cystadleurwydd i Gymru wrth wneud cais i raglenni ariannu mwy.

Fodd bynnag, nodwyd bod angen i gydweithrediadau fod yn gredadwy, ac mae angen cefnogi cynaliadwyedd cydweithio er mwyn bod yn effeithiol. Roedd yna farn hefyd y dylai canolbwyntio ar ragoriaeth ymchwil arwain at gydweithio effeithiol yn naturiol a dylid bod yn ofalus i beidio ag annog cydweithio 'gorfodol' (e.e. drwy ei wneud yn ofyniad cyllid), efallai na fydd hynny'n fuddiol a gallai fod yn llai manteisiol mewn gwirionedd.

Yn olaf, amlygwyd y dylai cydweithio, os caiff ei gynnwys fel canlyniad, fynd law yn llaw â chanlyniadau eraill megis papurau, patentau, ymgysylltiadau cyhoeddus a masnachol a chyllid sydd wedi'i ysgogi.

## **Cydraddoldeb ac amrywiaeth**

Darparodd 72 o ymatebwyr sylwadau i'r cwestiwn "Pa fecanweithiau y gallem ni eu sefydlu i wneud cyfleoedd cyllido Sêr Cymru yn fwy deniadol a hygyrch i ystod amrywiol o ymgeiswyr?"

Nodwyd sawl mecanwaith posibl gan ymatebwyr i'w hystyried i wneud cyfleoedd cyllido Sêr Cymru yn fwy hygyrch ac maent wedi'u crynhoi isod:

- Mentoriaeth ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Ceisiadau a phroses adolygu dall
- Aelodaeth panel ariannu amrywiol, gan gynnwys adolygwyr rhyngwladol a allai fod â llai o ddiddordeb gwleidyddol neu gymhwysedd personol ar gyfer cyllid
- Cronfeydd wedi'u targedu ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol e.e. galwad am gyllid peirianeg sy'n agored i fenywod yn unig
- Cyfnodau hirach a mwy hyblyg o gyllid, gan gynnwys cyfleoedd rhan amser

- Cyfnod arweiniol hirach gyda phrosesau gwneud penderfyniadau cyflym i wella sicrwydd a hwyluso cynllunio
- Hysbysebu eang drwy amrywiaeth o sianeli, gan gynnwys gweithdai 'cwrdd â'r cyllidwr'
- Proses ymgeisio syml a thryloyw sy'n sicrhau bod cynhwysiant yn cael ei amlygu'n glir ym mhob dogfennaeth
- Rhoi llai o bwyslais ar gyllid cyfatebol gan fod ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa yn aml yn gweld hyn yn anoddach i ddod o hyd iddo
- Gwerthuso a monitro profiad ymgeiswyr
- Hwyluso symud rhwng diwydiant a'r byd academiaidd
- Gwneud defnydd o rwydweithiau a chymunedau o wahanol grwpiau o ymchwilwyr sydd eisoes ar waith
- Canolbwyntio ar ecwiti mynediad (h.y., gan ddarparu mwy o gyfleoedd i'r rhai sy'n llai abl i gael mynediad), yn hytrach na chydaddoldeb mewn canlyniad (h.y. ymdrechu i gael cynrychiolaeth gyfartal ar draws grwpiau).

## Y Gymraeg

Gofynnwyd dau gwestiwn yn benodol am yr iaith Gymraeg fel rhan o'r ymgynghoriad. Gofynnodd y cyntaf i'r ymatebwyr am eu barn am yr effeithiau y byddai rhaglen Sêr Cymru yn ei gael ar yr iaith Gymraeg, gyda 55 ymateb wedi dod i law.

Nodwyd bod potensial am effeithiau cadarnhaol, gan gynnwys yr hyn fyddai ei angen i wireddu'r effeithiau hyn. Byddai angen parhau i ddilyn polisiâu cyfredol ac arfer da yn ymwneud â chadw a hyrwyddo'r Gymraeg, byddai angen trin cynigion ac ymchwilwyr sy'n cyfathrebu yn y ddwy iaith a'u croesawu'n gyfartal, a byddai angen darparu cyfleoedd i'r rhai sy'n dymuno cymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg. Awgrymwyd gan rai y dylid neilltuo cyllid penodol ar gyfer ymchwil sy'n berthnasol i gefnogi'r Gymraeg a thynnodd eraill sylw at y sefydliadau hynny, megis y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sydd hefyd yn cael dylanwad cadarnhaol yn y maes hwn.

Awgrymwyd y gallai effeithiau cadarnhaol Sêr Cymru gael eu cyflwyno drwy wella ymgysylltiad cymunedol â chymunedau dwyieithog yng Nghymru. Fodd bynnag, nodwyd y byddai angen parhau i ddarparu papurau academiaidd a gweithgareddau lledaenu eraill ar gyfer cynulleidfau ryngwladol ehangach yn Saesneg.

Gofynnodd yr ail gwestiwn am farn ar sut y gellid llunio neu newid rhaglen Sêr Cymru i effeithio'n gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, gyda 53 o ymatebion yn dod i law.

Gwnaed nifer o awgrymiadau, gan gynnwys:

- Cefnogi cyfleoedd rhwydweithio a hyfforddi ymchwil yn y Gymraeg ar draws Cymru, gan gynnwys rhwng ymchwilwyr Cymraeg a rhai di-Gymraeg.
- Hyrwyddo ymchwil pellach sy'n cael ei gynnal trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cefnogaeth i greu newid a gwelliannau a awgrymir fel rhan o ymchwil berthnasol i'r Gymraeg.
- Cyllid ymchwil wedi'i dargedu'n uniongyrchol tuag at yr agenda hon, gan gynnwys cefnogaeth i gynyddu faint o ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael a gallu goruchwylwyr cysylltiedig.



- Sicrhau bod yr holl ddogfennau a ffurflenni cais ar gael yn ddwyieithog, mae siaradwyr Cymraeg yn gallu cael mynediad at ddogwyddiadau trwy gyfrwng y Gymraeg a bod allbynnau ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hannog.
- Sicrhau digon o ymgynghori gyda'r holl randdeiliaid ar faterion Cymraeg, gan gynnwys gofyn i ymgeiswyr a/neu Brifysgolion ystyried effaith unrhyw weithgareddau ymchwil arfaethedig ar y Gymraeg.
- Ymgysylltu â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a phartneriaid allweddol eraill yn y maes hwn.

Amlygwyd hefyd yr angen i sicrhau nad yw pobl ddi-Gymraeg yn cael eu hannog i beidio ag ymwneud â rhaglen Sêr Cymru hefyd.

## Sylwadau ychwanegol

Cafodd yr ymatebwyr gyfle i roi manylion unrhyw beth arall yr hoffent ddarparu adborth arno am y rhaglen ariannu arfaethedig. Rhoddodd 40 o ymatebwyr sylwadau ychwanegol yn yr adran hon.

Defnyddiodd llawer o'r ymatebwyr yr adran hon i nodi eu cefnogaeth i Sêr Cymru yn gyffredinol a'i llwyddiannau yn y gorffennol, eu bod yn ddiolchgar am y cyfle i wneud sylw a bod angen cam newydd ac y byddai croeso mawr amdano, yn enwedig i gefnogi'r rhai ar ddechrau eu gyrfaedd ac sydd fwyaf mewn perygl o adael gyrfa ymchwil.

Amlygwyd yr angen am ymgysylltu eang, gan gynnwys yr holl brifysgolion ledled Cymru i ddatblygu a chyflwyno'r rhaglen, yn enwedig gan y bydd gofyn tebygol am lefel o gyd-gyllid o'r brifysgol. Ailadroddwyd yr angen i ganolbwyntio cyllid cyfyngedig ar feysydd allweddol wrth osgoi dyblygu ac estyn adnoddau yn ormodol ar draws gormod o adrannau.

Yn olaf, amlygwyd yn gryf yr angen i ariannu ymchwil yng Nghymru yn briodol er mwyn parhau i feithrin capasiti a chynyddu'r gallu i gystadlu â chyllid a gynigir gan sefydliadau ledled y DU, ochr yn ochr â'r risgiau o beidio gwneud hynny, megis colli talent, arbenigedd a'r potensial i sbarduno cyllid ychwanegol i Gymru. Er bod yr ymatebwyr yn cefnogi'n gryf y cynnig am gyllid ar gyfer cam nesaf rhaglen Sêr Cymru, rhannwyd y pryderon bod £10 miliwn dros dair blynedd yn debygol o fod yn annigonol oherwydd yr heriau disgwylidig y mae Cymru'n eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae'r heriau hyn yn cynnwys effeithiau parhaus pandemig Covid-19, yr ansefydlogrwydd economaidd, a'r newidiadau a'r ansicrwydd sylweddol ar draws y dirwedd ariannu ymchwil.

## Casgliad a chamau nesaf

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cynnig eu barn. Derbyniodd yr ymgynghoriad ystod eang o ymatebion gan unigolion sy'n ymwneud ag ymchwil ledled Cymru. Ystyriwyd pob un o'r wyth adran arfaethedig yn ffafriol i'w cynnwys gan ymatebwyr, fodd bynnag, cafwyd mewnwelediad defnyddiol o ran blaenoriaeth, gyda'r adrannau a raddiwyd uchaf yn cael eu nodi yn 'ysgoloriaethau doethuriaeth', 'Gwobrau adeiladu capasiti', a 'Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol'. Ar gyfer y themâu arfaethedig, y rhai a raddiwyd uchaf oedd 'Gwyddorau Bywyd', 'Iechyd a Gofal Cymdeithasol', 'Peirianeg' a ddilynwyd yn agos gan 'Garbon isel a Sero Net'. Er mai'r adrannau a'r themâu hyn a ddaeth ar y brig, amlygodd yr ymatebwyr hefyd fanteision ac anfanteision pwysig sy'n gysylltiedig ag elfennau o'r rhaglen arfaethedig sy'n gofyn am ystyriaeth ofalus, ochr yn ochr â'r angen i symleiddio a ffocysu yng nghyd-destun adnoddau ac amser cyfyngedig.

Bydd y safbwyntiau, yr awgrymiadau a'r ymholiadau a godir drwy'r ymgynghoriad hwn, ynghyd â blaenoriaethau parhaus a datblygol y llywodraeth, yn cael eu hystyried a'u defnyddio i lywio argymhellion ar fframwaith arfaethedig ar gyfer cam nesaf rhaglen ariannu ymchwil Sêr Cymru.

Mae'n gyfnod heriol i ymchwil yng Nghymru ac ar draws y DU, a bydd angen i Sêr Cymru aros yn hyblyg er mwyn adolygu ei flaenoriaethau yn rheolaidd a chysoni'r gweithgareddau yn briodol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn elwa gymaint â phosibl ar ymchwil a rhagoriaeth ymchwilwyr, gan fanteisio ar gyfleoedd i gydweithio a mewnfuddsoddi.

Bydd manylion am gam nesaf rhaglen ariannu ymchwil Sêr Cymru a'r cyfleoedd ariannu dilynol yn cael eu rhannu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar dudalennau gwe a sianeli cyfathrebu Sêr Cymru.